

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae ein harolygiadau o'r bwrdd iechyd dros y 12 mis diwethaf wedi bod yn foddhaol ar y cyfan. Mae rhai o'n hymweliadau wedi dilyn arolygiadau blaenorol, ac mae'n gadarnhaol nodi i'r rhan fwyaf o welliannau gael eu gweithredu ac, yn bwysig, eu cynnal. Fodd bynnag, roedd yn bryder bod rhai o'r problemau a nodwyd yn flaenorol yn dal i fod yn amlwg mewn rhai arolygiadau.

Un o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r bwrdd iechyd, a nodwyd yn ystod ein harolygiad, yw cynnal llif cleifion drwy adran achosion brys Ysbyty Glan Clwyd a mynd i'r afael â'r amseroedd aros hir a brofir gan gleifion.

Er ei bod hi'n galonogol na wnaeth yr un o'n harolygiadau iechyd meddwl arwain at lythyr sicrwydd uniongyrchol, ac mae'n amlwg bod cryn ymdrech i wella gwasanaethau, rydym yn dal i boeni am gapasiti cyffredinol gwasanaethau. Rhaid i'r bwrdd iechyd

sicrhau bod digon o gapasiti o fewn gwasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol er mwyn diwallu anghenion ei boblogaeth. Rydym hefyd yn pryderu am faint o amser y gall rhai cleifion yn y gymuned fod yn aros i ddefnyddio gwasanaethau seicolegol, gyda rhai yn aros hyd at ddwy flynedd. Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Er bod yr arolygiadau o feddygfeydd yn gadarnhaol ar y cyfan, codai cleifion bryderon ynghylch y gallu i wneud apwyntiadau yn fynych.

Ar y cyfan, er ei bod yn gadarnhaol nodi rhai o'r gwelliannau ar draws ein harolygiadau'r llynedd, mae'n amlwg yn hollbwysig bod y rhain yn cael eu cynnal a'u datblygu gan fwrdd iechyd sy'n dal i fod yn destun mesurau arbennig.

### Ysbytai

Gwnaethom arolygu Ysbyty Bryn Beryl ac Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd

- |   |   |
|---|---|
| ✓ Tystiolaeth dda o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymgysylltu gan staff   | ✗ Roedd rhai o'r problemau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol o Ysbyty Glan Clwyd yn dal i fodoli, yn enwedig trefniadau adnabod cleifion a'r defnydd anghyson o siartiau hylif |
| ✓ Aseidiadau risg, archwiliadau ac adroddiadau effeithiol   | ✗ Yn Ysbyty Bryn Beryl gwnaethom nodi problemau o ran darparu gweithgareddau wedi'u trefnu i gleifion a'r ffaith nad oedd teledu, radio na lolfa iddynt                         |
| ✓ Wardiau glân a threfniadau rheoli heintiau da yn Ysbyty Bryn Beryl  | ✗ Mae angen gwneud mwy er mwyn i'r amgylchedd yno fod yn fwy ystyriol o gleifion â dementia ym Mryn Beryl   |
| ✓ Gwaith amlddisgyblaethol effeithiol a thîm rheoli gweladwy yn Ysbyty Glan Clwyd   | ✗ Yn Ysbyty Glan Clwyd, roedd pryderon cleifion ynghylch amseroedd aros a llifau cleifion yn amlwg yn broblem   |
| ✓ Roedd yr arolygiad o Ysbyty Glan Clwyd yn un dilynol ar ôl yr ymweliad ym mis Tachwedd 2016. Roedd yn gadarnhaol nodi i'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd gael eu cyflwyno a'u cynnal | ✗ Mae lefelau staffio yn her yn Ysbyty Glan Clwyd ac er ei bod hi'n gadarnhaol gweld llawer o staff newydd, mae llenwi swyddi gwag yn dal i fod yn heriol                       |

### Iechyd Meddwl

Gwnaethom arolygu Uned y Glasoed Gogledd Cymru yn Abergele, Uned Hergest ym Mangor ac Uned Ablett yn Ysbyty Glan Clwyd

- |   |   |
|---|---|
| ✓ Mae'r staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus  | ✗ Roedd y staff yn gadarnhaol ynghylch y ffordd roedd Uned Ablett yn cael ei rhedeg yn Ysbyty Glan Clwyd Roedd angen rhoi sylw i'r amgylchedd mewnol ac allanol yn Unedau Hergest ac Ablett |
| ✓ Nodwyd bod cyfleusterau ac amgylchedd Uned Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Abergele yn dda | ✗ Roedd angen gwella systemau i gadw cleifion a staff yn ddiogel yn Uned y Glasoed Gogledd Cymru  |
| ✓ Roedd trefniadau llywodraethu sefydledig ar waith   | ✗ Mae'r bwrdd iechyd yn wynebu heriau o ran sicrhau bod gan wasanaethau iechyd meddwl ddigon o gapasiti i ddiwallu anghenion ei boblogaeth  |
| ✓ Gwaith amlddisgyblaethol a chydlynu da gyda thimau pediatriig cymunedol yn yr uned CAMHS              |   |

### Deintyddfeydd

Gwnaethom arolygu 21 o deintyddfeydd yn 2018-

- |  |   |
|--|---|
| ✓ Gallai cleifion wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth  | ✗ Roedd yr angen i atgyfnerthu'r broses o gynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol yn broblem                              |
| ✓ Cawsai gwasanaethau eu rhedeg yn dda ac roedd staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel                | ✗ Roedd angen gwella hyfforddiant tân mewn sawl arolygiad   |
| ✓ Roedd y deintyddfeydd yn lân ac wedi'u cyflenwi'n dda, gyda threfniadau priodol i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel | ✗ Ni osodwyd biniau offer miniog ar y waliau  |
|  | ✗ Camau i gynnal adolygiadau cymheiriaid clinigol a hunanwerthuso gan ddefnyddio adnodd matrices aeddfedrwydd deintyddiaeth |

### Meddygfeydd

Gwnaethom arolygu chwe meddygfa

- |   |  |
|---|--|
| ✓ Roedd prosesau cadw cofnodion a chyfathrebu mewnol da yn y rhan fwyaf o arolygiadau | ✗ Problemau gyda systemau apwyntiadau yn y chwe arolygiad                      |
| ✓ Proffesiynoldeb staff meddygfeydd a gwasanaethau cymorth staff da                   | ✗ Nodwyd cofnodion hyfforddiant annigonol mewn sawl arolygiad                  |
| ✓ Timau rheoli cydlynus a chynhwysol ar waith   | ✗ Roedd angen gwella archwiliadau a diogelwch data mewn llawer o'r meddygfeydd |

### Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)

Gwnaethom gynnal un arolygiad o dan y Rheoliadau yn Ysbyty Wrecsam Maelor yn 2018-19

- |  |  |
|--|--|
| ✓ Roedd y staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd  | ✗ Bwrdd iechyd i ystyried sut y gellir gwneud gwybodaeth ysgrifenedig y cleifion yn fwy hygyrch a chyson                         |
| ✓ Cydymffurfiaeth dda â'r rheoliadau   | ✗ Gwybodaeth am sut y gall cleifion ddarparu adborth neu godi pryder ynghylch eu hanghenion gofal a thriniaeth i fod yn gliriach |
| ✓ Mae'r bwrdd iechyd wedi mynd ati'n rhagweithiol i greu gweithdrefnau newydd i fodloni gofynion y rheoliadau newydd | ✗ Angen gwella'r manylion yn y canllawiau awdurdodiad dirprwyedig ar gyfer cyfiawnhau amlygiadau                                 |

### Timau Iechyd Meddwl Cymunedol

Gwnaethom gynnal un arolygiad iechyd meddwl cymunedol yn 2018-19 yn Nant-y-Glyn

- |  |  |
|--|--|
| ✓ Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | ✗ Mae'r bwrdd iechyd yn wynebu heriau sylweddol o ran sicrhau mynediad amserol i wasanaethau seicoleg a seicotherapi, gydag oedi o hyd at ddwy flynedd |
| ✓ Prosesau archwilio, adrodd ac uwchgyfeirio yn dda yn y TIMC                                      | ✗ Roedd angen rhoi sylw mawr i amgylchedd ffisegol y TIMC  |
| ✓ Rheolwyr tîm i fod yn hygyrch ac yn gefnogol   | ✗ Roedd ansawdd dogfennaeth yn amrywio ac roedd angen gwneud gwelliannau i brosesau cynllunio gofal a rheoli risg                                      |